Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones
# Ffordd Cefndy
# Y Rhyl
# LL18 2EU

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gydaddysgol cyfrwng Saesneg a gynorthwyir yn wirfoddol ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed yw Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae 490 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan ryw 36% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn ddwywaith yn fwy na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 120 o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gan dri y cant o’r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, o gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.7%. Mae gan yr ysgol saith o blant sy’n derbyn gofal. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i gyfran uchel o ddisgyblion (12%), ac mae disgyblion o 15 math gwahanol o genedligrwydd heblaw Prydeinig yn yr ysgol.

Canol y Rhyl a’r ardal gyfagos yw dalgylch yr ysgol yn ei hanfod, ac mae disgyblion yn teithio ar fws o Gronant, Dinbych a Chonwy hefyd. Ar hyn o bryd, mae 11 o ysgolion cynradd yn anfon disgyblion i’r ysgol. Mae tua 53% o’r disgyblion yn byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae gan yr ysgol un prif safle, gyda chaeau chwarae hanner milltir i ffwrdd.

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones ddiwethaf ym Medi 2006 a barnwyd bod angen mesurau arbennig arni. Ym Mehefin 2008, barnodd Estyn fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â’r argymhellion a nodwyd yn adroddiad 2006, ac fe’i tynnwyd o’r categori mesurau arbennig.

Dechreuodd y pennaeth newydd ar ei swydd yng Ngorffennaf 2011 ac mae’n gwneud newidiadau priodol i’r strwythur rheoli. Mae’r strwythur presennol er Medi 2012 yn cynnwys un dirprwy bennaeth a thri aelod o staff, sydd wedi’u secondio i’r uwch dîm arweinyddiaeth, gyda chyfrifoldeb am hunanarfarnu, gwella’r ysgol ac addysgu a dysgu.

Mae’r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones yn 2011-2012 yn golygu mai’r gyllideb yw £4,313 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych yw £4,659 a’r isafswm yw £3,831. Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones yn drydydd o’r wyth ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae nodweddion da ym mherfformiad presennol yr ysgol yn cynnwys:

- tuedd o wella yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, a gynhelir yn dda;
- mae cymwysterau cyfnod allweddol 4 sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg, sydd gryn dipyn yn well na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg, yn awr yn golygu bod yr ysgol yn y chwartel uchaf a chryn dipyn uwchlaw'r disgwyliadau wedi'u modelu;
- datblygiad medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- ethos cymunedol cryf;
- gwersi sydd wedi'u cynllunio'n dda a marcio athrawon sy'n golygu bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'u cynnydd; ac
- ymddygiad da iawn gan ddisgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir, a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol, y mae pob un o'r staff a'r disgyblion yn eu deall yn dda, ac sy'n arwain at safonau uwch;
- bod targedau mwy heriol yn awr yn cael eu gosod ar gyfer codi safonau;
- bod ailstrwythuro'r uwch dîm arweinyddiaeth yn sicrhau bod yr holl faterion allweddol sy'n ymwneud â gwaith yr ysgol i wella safonau yn cael eu goruchwylio'n strategol;
- bod llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol;
- bod yr ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid ac asiantaethau i wella'r cwricwlwm; ac
- eir i'r afael yn effeithiol â'r diffyg yn y gyllideb, ac mae'r ysgol ar y trywydd iawn i dalu'r diffyg.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd;

A2 sicrhau bod pob disgybl yn gallu cyfrannu'n fwy effeithiol at ddatblygu polisïau, cynlluniau a mentrau'r ysgol;

A3 datblygu cydlynu'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol;

A4 gwella'r gweithdrefnau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion mewn llythrennedd; ac

A5 atgyfnerthu'r strwythur uwch reoli fel ei fod yn parhau i fodloni anghenion strategol yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn dangos gwelliant cyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r data dros dro ar gyfer 2012 yn dangos bod y cynnydd hwn yn cael ei gynnal, a bod nifer gynyddol o ddisgyblion yn cyflawni ystod o gymwysterau perthnasol yng nghyfnod allweddol 4. Mae trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg yn dangos bod yr ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Bu gwelliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn y dangosydd pwnc craidd yn 2012, er bod yr ysgol yn parhau i fod islaw'r cyfartaledd mewn perthynas ag ysgolion eraill tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg ar lefel 5 ac yn uwch wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Bu cynnydd mewn perfformiad mewn Saesneg ar lefel 6 yn 2012 hefyd, ond gostyngodd yn sylweddol mewn mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad hyd at 2011 yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yn gwella, ac roedd yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer mwyafrif y dangosyddion. Mae'r data dros dro ar gyfer 2012 yn dangos bod y cynnydd hwn yn cael ei gynnal yn dda. Mae deilliannau yn y cymwysterau sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg yn 2011, a dros dro ar gyfer 2012, yn dangos bod yr ysgol yn perfformio ymhell uwchlaw'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg. Er bod perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi aros yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r canlyniadau yn 2011 a 2012 yn golygu ei bod ychydig islaw'r cyfartaledd mewn perthynas â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4.

Dros y tair blynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn yn y rhan fwyaf o bynciau. Fodd bynnag, yn 2012, roedd canlyniadau merched a bechgyn yn debyg iawn mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 4, ar gyfer trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, perfformiodd bechgyn yn well na merched yn 2011. Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda. Mae gostyngiad wedi bod yn y bwlch cyffredinol rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael, er 2010. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau.

Ychydig iawn o ddisgyblion a adawodd yr ysgol heb gymhwyster yn 2011 a 2012. Fodd bynnag, roedd canran y disgyblion y dywedwyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn 2011 yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru fel ei gilydd.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o wersi, a gallant ddangos lefel gynyddol o fedrau pwnc, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol. Mae

disgyblion yn gweithio'n dda fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau bach i ymgymryd â'r gweithgareddau dysgu perthnasol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau ysgrifennu priodol am eu gallu, a gallant gynnwys termau technegol cywir, yn eu gwaith ysgrifenedig ac wrth drafod eu gwaith gyda'r athro. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau gwrando da ac yn ymateb yn dda i gwestiynau'r athro. Mae rhai disgyblion yn barod i gynnig atebion estynedig ar lafar hefyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus, ac mae rhai disgyblion yn ailddrafftio eu gwaith yn briodol ar ôl cael adborth gan athrawon. Mae mwyafrif y disgyblion yn sillafu ac yn atalnodi'n gywir, er bod rhai disgyblion yn gwneud camgymeriadau'n aml. Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus, a gall rhai disgyblion ddarllen i weddill y dosbarth yn eglur. Mae'r nifer fach iawn o ddisgyblion a dargedir ar raglenni ymyrraeth yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu eu medrau darllen.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 ac yn uwch mewn Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n parhau i ddangos bod yr ysgol yn perfformio ar lefel is nag ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, er bod pob disgybl yn dilyn y cwrs, lleiafrif o ddisgyblion yn unig a gofrestrwyd ar gyfer yr arholiad cwrs byr Cymraeg ail iaith TGAU yn 2011, a dim ond 3% a gyflawnodd lefel 2. Mae'r ysgol wrthi'n codi proffil yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd, ac yn 2012, cofrestrwyd 42% ar gyfer Cymraeg ail iaith. Mae'r canlyniadau'n dangos i 14% o ddisgyblion gyflawni lefel 2. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dilyn y cymhwyster cwrs llawn.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac maent yn gweithio'n galed mewn gwersi. Maent yn foesgar a chwrtais, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos gofal a pharch at bobl eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos eu bod yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd priodol trwy brofiadau dysgu perthnasol, sy'n aml yn cynnwys disgyblion yn gweithio yn y gymuned leol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd os oes angen cymorth arnynt. Hefyd, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o fyw yn iach, ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol.

Bu gwelliant sylweddol mewn presenoldeb yn 2011-2012 ac mae'n cymharu'n dda iawn â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn ystod 2011-2012. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o 2010-2011 a disgwylir y bydd nifer y gwaharddiadau yn parhau i ostwng yn ystod 2012-2013. Hefyd, mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn gymharol isel erbyn hyn o gymharu â chyfartaleddau'r awdurdod lleol a chyfartaleddau cenedlaethol.

Mae disgyblion yn cynnig eu safbwyntiau am lawer o faterion ysgol gyfan trwy gynghorau ysgol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd a gânt i gyfrannu at ddatblygu polisïau, cynlluniau a mentrau'r ysgol. Mae dau lywodraethwr disgyblion cysylltiol ac maent yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol yn rheolaidd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm wedi cael ei aildrefnu'n ddiweddar fel ei fod yn darparu'n gynhwysfawr ar gyfer anghenion a dyheadau gwahanol ddisgyblion mewn ffordd arloesol a dychmygus. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n briodol ar brofiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, a chynigir rhai o'r cyrsiau hyn mewn partneriaeth â choleg lleol. Mae'r newidiadau i'r cwricwlwm wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad ar draws ystod o ddangosyddion, yn enwedig trothwy lefel 2, lles disgyblion a chyfraddau presenoldeb. Mae darpariaeth addas ar gyfer llawer o agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol, ond nid yw'r rhaglen gyffredinol wedi'i chydlynu'n dda.

Fel rhan o'r rhaglen 5x60, mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang iawn o weithgareddau, a fynychir gan nifer dda o ddisgyblion, ac fe gânt eu gwerthfawrogi gan ddisgyblion a rhieni fel ei gilydd. Hefyd, mae'r Prosiect Cynhwysiant Ieuenctid yn darparu cyfleoedd allgyrsiol ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu dadrithio.

Mae'r ddarpariaeth i ymestyn medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu'n dda, ac fe gaiff ystod o raglenni ymyrraeth eu cynllunio'n ofalus. Nodir cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi ar draws y cwricwlwm. Mewn rhai adrannau, mae ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd ar lefel uwch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith yn datblygu'n briodol, er na wnaed digon o gynnydd i wella safonau yng nghyfnod allweddol 4. Caiff dealltwriaeth disgyblion o'r dimensiwn Cymreig ei datblygu trwy ystod o bynciau a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau llwyddiannus, fel cwmnïau bwyd cydweithredol a gweithgareddau masnach deg, i godi ymwybyddiaeth disgyblion am addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Caiff dinasyddiaeth fyd-eang ei hyrwyddo'n effeithiol mewn gwersi, cyfnodau dosbarth a gwasanaethau ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o waith ac ymddygiad disgyblion. Mae ganddynt berthynas waith dda iawn gyda disgyblion, a defnyddir canmoliaeth yn effeithiol i gymell, annog a herio pob disgybl. Mae cymorth â ffocws da i oedolion yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd dysgu'r disgyblion.

Mae'r addysgu'n dda neu'n well mewn llawer o wersi. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio a pharatoi gwersi'n ystyriol gydag amcanion wedi'u cyfleu'n glir a gweithgareddau dysgu wedi'u cynllunio'n dda. I sicrhau rhediad a her dda, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o dasgau ysgogol ac yn gwneud defnydd da o dechnolegau digidol newydd i wella'r dysgu.

Yn y nifer fach iawn o wersi lle mae'r addysgu'n hynod effeithiol, caiff gweithgareddau dysgu eu gweddu'n agos iawn i anghenion disgyblion, ac maent yn canolbwyntio'n eglur ar ddatblygu medrau'r disgyblion. Yn y gwersi hyn, defnyddir cwestiynau medrus yn dda i herio a phrocio dealltwriaeth y disgyblion.

Mewn rhai gwersi, mae diffyg rhediad neu dasgau wedi'u gwahaniaethu'n addas yn golygu nad yw rhai disgyblion yn gwneud cynnydd digonol.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn amserol, ac mae'n cyfrannu'n dda at wella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi syniad clir i ddisgyblion o'r cryfderau a'r gwendidau mewn termau sy'n benodol i bwnc, ac yn amlinellu targedau clir ar gyfer gwella. Mae rhai athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o feini prawf llwyddo i annog disgyblion i fyfyrio ar safon eu gwaith, a'i wella. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae athrawon yn defnyddio cylch asesu ysgol-gyfan effeithiol i bennu targedau heriol, monitro a chofnodi cynnydd ac ymddygiad disgyblion, ac ymyrryd yn brydlon i fynd i'r afael â thangyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r arfer o olrhain cynnydd disgyblion mewn llythrennedd wedi'i datblygu digon ar draws pynciau.

Mae disgyblion yn wybodus am eu lefelau cyflawniad presennol a disgwyliedig.

Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd wrth rieni yn dda iawn, ac mae llawer o rieni'n teimlo'n wybodus am gynnydd eu plentyn. Mae adroddiadau bob hanner tymor yn rhoi crynodebau defnyddiol o gynnydd, cyfraddau presenoldeb ac ymddygiad, ac mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnwys sylwadau buddiol gyda thargedau clir a manwl gywir ar gyfer gwella. Mae disgyblion yn cyfrannu'n synhwyrol at yr adroddiadau gan nodi eu cyflawniadau, a gyda chymorth gan eu tiwtoriaid dosbarth, maent yn gosod targedau priodol iddyn nhw eu hunain ar gyfer gwella.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae ei chwricwlwm a'i hethos yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Mae rheoli ymddygiad, trwy system strwythuredig a ddeellir yn dda o wobrwyo a chosbau graddol, wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran lleihau gwaharddiadau a gwella ymddygiad. Mae ymatebion i ymddygiad amhriodol yn cynnwys nifer o weithgareddau dilynol teilwredig. Cafwyd llwyddiant tebyg yn y trefniadau ar gyfer gwella presenoldeb sydd wedi'u seilio ar ddull trylwyr o gofnodi presenoldeb a mynd i'r afael ag absenoldebau.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o asiantaethau i gefnogi mwy o ddysgwyr sy'n agored i niwed yn effeithiol. Mae nifer dda yn mynychu'r cyfarfodydd amlasiantaethol rheolaidd, maent yn canolbwyntio'n gadarn ar unigolion ac yn arwain at weithredu a chymorth sy'n gweddu'n dda i'w gilydd. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol i ddisgyblion wrth iddynt wneud dewisiadau. Mae disgyblion newydd yn yr ysgol, yn cynnwys y rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn ymgynefino'n dda.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cefnogi'n effeithiol trwy ddarpariaeth gydlynus a reolir yn dda. Mae trefniadau cynhwysfawr i nodi anghenion disgyblion, a darperir ystod addas o weithgareddau cymorth ar eu cyfer, sy'n cael eu gweddu'n dda i'w gofynion penodol. Mae cynlluniau gweithredu ar gyfer disgyblion unigol yn benodol ac yn amlinellu'n glir y cymorth sydd ei angen, er nad yw'r defnydd a wneir ohonynt mewn dosbarthiadau yn cael ei fonitro'n ddigon manwl. Mae cynorthwywyr cymorth addysgu a dysgu yn cynnig darpariaeth effeithiol ar gyfer ystod o anghenion trwy gymorth mewn dosbarth a gwaith y tu allan i'r dosbarth. Rhoddir gwybodaeth dda i rieni am y ddarpariaeth ac am gynnydd eu plant, ac ymgynghorir â nhw'n briodol lle bydd angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, ac yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth yn yr ysgol a'r gymdeithas ehangach. Mae ethos Catholig cadarnhaol yn amlwg i ymwelwyr cyn gynted ag y byddant yn mynd i mewn i'r ysgol. Mae'n amlwg bod yr ethos hwn yn effeithio ar agweddau a gwerthoedd disgyblion. Caiff y datganiad cenhadaeth ei integreiddio'n dda yn holl bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol, ac mae'r rhain yn parchu hawliau pob disgybl. Hefyd, mae'r ysgol yn amgylchedd diogel a chroesawgar lle caiff unigoliaeth a ffydd eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae disgyblion yn dangos gwerthoedd yr ysgol mewn gwersi ac wrth symud o amgylch yr ysgol. Mae parch amlwg ar y ddwy ochr rhwng staff, disgyblion a phobl sy'n ymweld â'r ysgol.

Caiff yr adeilad ei gynnal a chadw'n dda, ac mae'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel. Mae digon o adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, a buddsoddwyd yn sylweddol mewn gwella'r ddarpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Caiff waliau ystafelloedd dosbarth a choridorau eu defnyddio'n effeithiol i ddangos enghreifftiau o waith disgyblion a darparu gwybodaeth berthnasol. Er bod cyfleusterau addysg gorfforol yn anfoddhaol, mae'r ysgol wedi ymdrechu'n fawr i oresgyn hyn trwy gludo disgyblion i ganolfannau chwaraeon lleol yn rheolaidd. Nid oes digon o doiledau ar gyfer nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Dros y pedair blynedd diwethaf, bu llawer o ansefydlogrwydd ar lefel prifathrawiaeth. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, mae'r ysgol wedi cynnal a gwella llawer o agweddau ar ei gwaith, yn enwedig y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae'r pennaeth newydd wedi gwella llawer o agweddau ar yr ysgol yn sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr, ac mae wedi ailennyn ymddiriedaeth a hyder rhieni a'r gymuned yn yr ysgol. Mae'n arwain yn effeithiol, ac mae ganddo weledigaeth sefydledig a ddeellir yn dda ar gyfer yr ysgol, sydd wedi'i seilio ar ddisgwyliadau clir ynglŷn â'r hyn y dylai'r ysgol ei gyflawni o ran ei hethos a'i pherfformiad. Mae safonau wedi parhau i

wella, ac mae'r pennaeth wedi mynd i'r afael â'r diffygion niferus yn rheolaeth a darpariaeth yr ysgol.

Rhoddwyd llawer o weithdrefnau a systemau newydd ar waith yn gyflym ac yn effeithiol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, y prif feysydd y gwelwyd gwelliannau nodedig ynddynt yw ymddygiad, presenoldeb, cynllunio a rheolaeth ariannol, a darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth wedi cymryd yr awenau o ran gwneud y gwelliannau hyn. Nid yw'r strwythur uwch reoli wedi bod yn addas at ei ddiben, ac mae wrthi'n cael ei ailstrwythuro ar hyn o bryd fel ei fod yn gweddu'n well i anghenion strategol yr ysgol. Mae tri arweinydd canol wedi cael eu cyfethol yn llwyddiannus i'r uwch dîm arweinyddiaeth dros dro. Maent yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn cyfrannu at gynnydd yng ngallu'r tîm uwch. Mae rolau a chyfrifoldebau'n glir ar y cyfan, ac yn cael eu dosbarthu'n gyfartal, er nad yw rhai tasgau'n cael eu cwblhau mewn ffordd sy'n arwain at y deilliannau dymunol.

Mae gwaith priodol ar y gweill i wella'r strwythur rheolwyr canol ymhellach. Mae rheolwyr canol yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae llawer o'r arweinwyr pwnc yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o safonau ac ansawdd yr addysgu yn eu hadrannau, ac maent yn darparu arweinyddiaeth gref ar gyfer eu maes cyfrifoldeb. Mae arweinwyr bugeiliol yn gweithio'n dda, yn enwedig mewn perthynas â gwella lles disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn wybodus am gryfderau a gwendidau'r ysgol, yn sgil darparu gwybodaeth reolaidd a didwyll. Maent yn ychwanegu at y ddealltwriaeth hon trwy ymweliadau rheolaidd, yn cynnwys arsylwi'r addysgu a'r dysgu. Maent yn meddu ar wybodaeth gadarn a manwl am berfformiad yr ysgol, ac fel y ffrind beirniadol, maent yn cynnig her addas i helpu'r ysgol i wella.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys Llwybrau Dysgu 14-19 a lleihau effaith amddifadedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu'r ysgol a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn fwy systematig a thrylwyr erbyn hyn, ac mae'n arwain at welliannau mewn safonau. Mae'r pennaeth, wrth weithio'n agos â'r uwch dîm arweinyddiaeth, wedi cyflwyno proses hunanarfarnu glir sydd wedi'i chysylltu â chynllunio gwelliant. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac mae ganddo ddealltwriaeth glir o'i chryfderau a'r meysydd y mae angen eu gwella. Caiff y wybodaeth hon ei chyfleu'n rheolaidd i bob un o'r staff sy'n ymateb yn briodol i unrhyw newidiadau a wneir. Mae trefniadau hunanarfarnu, a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol, yn awr yn cael eu hymgorffori'n dda yn y targedau a osodir ar draws pob adran. Mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn adeiladu ar ddata'r ysgol, adroddiadau adrannol ac adolygiadau'r awdurdod lleol yn effeithiol, ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae rheoli perfformiad wedi cael ei roi ar waith o'r newydd yn yr ysgol yn ddiweddar, ac mae'n dechrau cael ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer cyfleoedd perthnasol i ddatblygu staff. Caiff rhaglen werthuso ar gyfer staff cymorth, yn ogystal â

chynlluniau strwythuredig ar gyfer datblygiad proffesiynol staff addysgu, eu nodi fel rhan o gynllunio datblygiad yr ysgol. Defnyddiwyd cofnodion arsylwi gwersi i lywio'r cynllunio, ac mae cylch systematig a rheolaidd o arsylwi gwersi wedi dechrau.

Mae rheolwyr canol wedi dechrau defnyddio data yn llawer mwy effeithiol i farnu perfformiad adrannol a gosod targedau ar gyfer gwella. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau datblygu yn adeiladol ac yn dyrannu adnoddau a chyfrifoldebau mewn modd priodol.

Mae cyfleoedd ar gyfer gwrando ar ddysgwyr yn dechrau cael eu defnyddio'n effeithiol gan y tîm arweinyddiaeth a'r rheolwyr canol. Mae llais y dysgwyr yn dechrau cael ei ymgorffori ym mywyd yr ysgol ac mae'r cyngor ysgol yn dechrau cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i lywio cynllunio datblygiad.

Mae'r ysgol yn datblygu i fod yn gymuned ddysgu gref. Mae grwpiau o athrawon yn cydweithio'n dda i adolygu'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwella. Mae cysylltiadau cynyddol gydag ysgolion eraill a phartneriaid cymunedol, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar wella'r cwricwlwm.

Yn y deuddeg mis diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau datblygedig gydag ystod eang o asiantaethau. Defnyddir y rhain yn dda i ymestyn ystod y cyfleoedd a chefnogi lles dysgwyr sy'n agored i niwed.

Mae cysylltiadau cryf a sefydledig gyda'r gymuned leol, yn enwedig yr eglwys Gatholig leol a'r gymuned. Mae cyfathrebu da gyda rhieni, ac maent yn gefnogol o'r ysgol.

Mae trefniadau pontio gydag ysgolion cynradd partner a darparwyr ôl-16 yn drefnus ac yn sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n dda yn eu hamgylchoedd newydd. Mae rhai cysylltiadau cwricwlaidd gydag ysgolion cynradd partner, ond maent yn gyfyngedig o ran eu graddfa ar y cyfan. Mae cysylltiadau gyda darparwyr eraill wedi ehangu ystod yr opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, ond nid yw'r gweithdrefnau i fonitro ac arfarnu ansawdd y cyrsiau a addysgir y tu allan i'r ysgol wedi'u datblygu digon.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod adnoddau staffio ac ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Gwneir cynnydd da iawn i leihau'r diffyg yn y gyllideb a chyflawni gwarged gofalus. Mae llywodraethwyr wedi rhoi blaenoriaeth i benodi'r tîm arweinyddiaeth yn barhaol, ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r tîm i gyflawni amcanion cytûn yr ysgol. Mae perthynas dda gyda swyddogion yr awdurdod lleol i sicrhau bod cynlluniau a rheolaethau cyllideb priodol ar waith.

Mae nifer briodol o staff addysgu a chymorth, a ddefnyddir yn effeithiol i ddarparu profiadau dysgu da ar gyfer disgyblion ar draws y cwricwlwm.  Mae adnoddau da mewn adrannau, ac maent yn rheoli eu cyllidebau'n effeithiol.

O ganlyniad i wella safonau, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae canlyniadau 2011 a chanlyniadau 2012 yn parhau i olygu bod perfformiad yr ysgol ychydig islaw cyfartaledd y teulu ac yn yr hanner is o ran lefelau perfformiad ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 ac yn uwch ac ar lefel 6 ac yn uwch wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, ar gyfer lefel 5 ac yn uwch, mae'r ysgol yn parhau i fod yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg, ac mae'n perfformio islaw cyfartaledd y teulu. Ar gyfer lefel 6 ac yn uwch, mae perfformiad yr ysgol cystal â chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 ac yn uwch wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf hefyd, ac mae'r ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uchaf o gymharu â lefelau perfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg yn 2012 yn dangos gostyngiad sylweddol yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 ac yn uwch, sy'n golygu bod yr ysgol ymhell islaw cyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi dangos gwelliant sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ar lefel 5 ac yn uwch, a lefel 6 ac yn uwch, sy'n golygu ei bod yn y chwartel uchaf o gymharu â lefelau perfformiad cymharol ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu hefyd.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn darllen wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, ond bu ychydig o ostyngiad yn 2011. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn parhau i berfformio ychydig islaw cyfartaledd y teulu. Mae proffil tebyg yn bodoli ar gyfer ysgrifennu, er bod perfformiad uwchlaw cyfartaledd y teulu.

Yng nghyfnod allweddol yn 2012, roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Er y bu tuedd amrywiol dros bedair blynedd, mae'r data dros dro ar gyfer 2012 yn dangos bod cynnydd wedi cael ei gynnal a bod yr ysgol yn perfformio ymhell uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu. Mae'r dangosydd pwnc craidd hefyd yn dangos patrwm tebyg o welliant rhwng 2008 a 2012. Roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf yn 2012, a llwyddwyd i gynnal y cynnydd hwn hefyd. Roedd perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio islaw cyfartaledd y teulu yn 2011 ac yn yr hanner is o gymharu â lefelau perfformiad cymharol ysgolion tebyg. Mae'r data dros dro ar gyfer 2012 yn dangos bod yr ysgol wedi gwneud enillion sylweddol yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 1 wedi aros yn gyson dros dair blynedd er bod yr ysgol wedi disgyn o'r chwarter uchaf yn 2009 i'r hanner is yn 2012.

Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 1 wedi aros yn eithaf cyson dros y pedair blynedd diwethaf ac mae wedi bod cystal â chyfartaledd y teulu. Mae'r data dros dro ar gyfer 2012 yn dangos gwelliant o bum pwynt canran ar gyfer lefel 1 mewn Saesneg. Ar lefel 2 mewn Saesneg, mae'r ysgol wedi gwella'n sylweddol, ac mae'r data dros dro ar gyfer 2012 yn dangos bod y gwelliant hwn yn parhau. Mae canlyniadau 2012 yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion

tebyg. Mae perfformiad ar lefel 1 mewn mathemateg wedi aros yn weddol gyson dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd y canlyniadau ychydig islaw cyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, mae’r data dros dro ar gyfer 2012 yn dangos bod canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 1 mewn mathemateg wedi codi. Ar gyfer lefel 2 mewn mathemateg, mae’r ysgol wedi gwneud enillion sylweddol yn 2011, gan symud i fyny i’r chwartel uchaf ac ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, bu ychydig o ostyngiad yn 2012, gan symud yr ysgol i lawr i’r ail chwarter. Yn 2011, perfformiodd yr ysgol ychydig uwchlaw cyfartaledd y teulu ar gyfer gwyddoniaeth ar lefel 1. Ar lefel 2 mewn gwyddoniaeth, gwnaeth yr ysgol enillion sylweddol yn 2011, gan symud i fyny i’r chwarter uchaf, ond yn 2012, aeth i lawr i’r ail chwarter o gymharu ag ysgolion tebyg.

Un disgybl yn unig a adawodd yr ysgol heb gymhwyster yn 2012. Dywedir nad yw rhai disgyblion a adawodd yr ysgol yn 2011 mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae’r gyfran hon yn debyg i gyfartaleddau’r awdurdod lleol a Chymru.

Dros y tair blynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 3, mae’r merched wedi perfformio cryn dipyn yn well na’r bechgyn. Fodd bynnag, yn 2012, roedd canlyniadau merched a bechgyn yn debyg iawn mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ond perfformiodd merched yn llawer gwell na bechgyn mewn Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae canlyniadau yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, yn dangos bod y bechgyn yn perfformio’n well na’r merched, er bod canlyniadau merched wedi bod yn well na chanlyniadau bechgyn dros y tair blynedd flaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae’r bwlch o ran perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai nad oes ganddynt hawl i’w cael wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yng nghyfnod allweddol 4, ar gyfer trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud yn well na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan. Fodd bynnag, ar gyfer trothwy lefel 2, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gryn dipyn islaw cyfartaleddau’r teulu a chyfartaleddau Cymru gyfan. Ar drothwy lefel 1, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio yn unol â chyfartaleddau’r teulu a Chymru gyfan.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn perfformio yn unol â disgwyliadau.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 113 o ddisgyblion, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran. Roedd ymatebion y disgyblion yn debyg yn fras i ymatebion y disgyblion o ysgolion uwchradd eraill.

Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a dywed llawer ohonynt fod rhywun y gallant droi ato os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Hefyd, mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Fodd bynnag, mae'r gyfran hon yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda. Dywedant fod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, a'u bod yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb hefyd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer. Dywed llawer ohonynt fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith. Rhoddwyd cyngor da i lawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wrth iddynt ddewis eu cyrsiau, a dywedant fod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Dywed llawer o ddisgyblion fod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cadarnhau bod staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu, a dywedant fod yr ysgol yn helpu iddynt ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau. Dywed mwyafrif ohonynt fod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafodd Estyn 313 o ymatebion i'r holiadur i rieni. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cwestiynau gan lawer o rieni, ac mae eu safbwyntiau'n debyg yn fras i rieni disgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n fodlon â'r ysgol ac yn dweud ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod eu plant yn ddiogel a'u bod yn hoffi'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n nodi y cafodd eu plant gymorth i ymgynefino'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Dywed y rhan fwyaf ohonynt hefyd fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach. Mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn cynnig ystod dda o weithgareddau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da, ac mae bron pob un ohonynt yn credu bod disgwyliadau staff yn dda. Hefyd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol lle bydd angen, a bod staff yn trin eu plant yn deg ac yn eu parchu. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu

bod yr ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed, a dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn paratoi eu plant yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu'r coleg a gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.  Dywed llawer ohonynt fod gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ray Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Nigel Vaughan | Arolygydd Tîm |
| Sue Morgan | Arolygydd Tîm |
| Robert Davies | Arolygydd Tîm |
| Justine Elaine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Philip Manghan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Georgina Cohen | Arolygydd Cymheiriaid |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |